# Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 25ain o Dachwedd 2020**
**yn Rhithiol am 7.00pm.**

## Cofnodion

Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng D Jones-Morris Cyng D W Jones a Cyng B Jones, Cyng J Pierce

Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

Cod Ymddygiad Atgoffwyd pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi
Ni fu unrhyw Ddatgan Buddiant

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-10-2020
Cyng D Jones-Morris yn cynnig a'r Cyng B Jones yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion
**Asesiad Risg** Dim i adrodd ymhellach
**Gamlins** Wedi cadarnhau fod teitlau Canolfan Glasinfryn yno a'r Clerc wedi bod mewn cyfarfod a hwy y diwrnod blaenorol
Wedi derbyn amlinelliad o'r materion drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw ag yntau yn ei dro wedi eu rhannu yn electronig gyda'r Cynghorwyr
Rhai materion angen sylw mor fuan a phosib er bod rhai angylchiadau yn golygu na fydd hynny yn hawdd

Adroddiad Ariannol
'Roedd y Clerc wedi dosbarthu yn electronig y fantolen ariannol oedd yn dangos £36,742.09 yn y cyfrif cyfredol a £25,036.57 yn y cyfrif cadw

Archwylwyr Allannol
Dim ymateb pellach wedi dod

Taliadau angen sylw Argymell talu yr isod

| | | |
|---|---|---|
| D W Lewis | Torri gwair Tachwedd | = £295.00 |
| T G Hughes | Torri llwybrau Pentir | = £900.00 |
| Cyflog | Mis Tachwedd | = £ 583.56 |
| Treth Incwm | Mis Tachwedd | = £ 146.00 |

Gosod Cyllideb 2021-22
Dosbarthwyd taenlen yn rhagdybio y swm fyddai weddill diwedd Mawrth 2021
Taenlen yn dangos amcancostau Refeniw y cyngor 2021-22
Taenlen Atodiad C yn amcangyfrif y gyllid angenreidiol i gyflawni gwaith y Cyngor 2021-22

'Roedd Adodiad C yn dangos gwariant oddeutu £54,470.00

**Cytunwyd argymell i'r Cyngor llawn fod Cyngor Pentir yn codi Praesept o £50K i £55K am y flwyddyn 2021-22**

Prosiectau

- Prosiect Ysgol Y Faenol
  Ymweliadau wedi bod ar y safle a mynegwyd peth pryder ynglyn a diffyg cyfathrebu o ochr Cyngor Gwynedd ynglyn a gorffeniadau y ganolfan newydd
- Lon i gyfeiriad Canolfan Glasinfryn O drafodaethau gyda Gamlin ni throsglwyddwyd y lon/trac sy'n arwain tuag at y maes parcio –

    - Mae hawl tramwyo i’r maes parcio wedi ei warchod
    - Nodwyd fod y teitl yn enw James Griffiths a Mared Glyn fel ymddiriedolwyr i Cyngor Pentir – Argymellai holi os byddai’n syniad gwell i Cyngor Pentir fod wedi ei gofrestru fel y perchennog ag i’r Cyngor penodi ymddiriedolwyr
    - Septic Tanc tra wedi ei gofrestru gyda C N C ers ychydig wythnosau yn anhebygol o gael ei dderbyn
        - Hawl pibell a cynnal a chadw’r bibell yw’r unig hawl sydd gan y Cyngor
        - Byddai angen hawl ychwanegol i osod unrhyw beth arall dros y tir
        - Awgrymu gwneud ‘search’ i ddarganfod y pechennog

- Trydan y Diffibs 2020-21
    - Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd a trefniant mewn lle i ymweld a’r safleoedd a derbyn pris gosod y polion a chysylltu’r trydan iddynt

<u>I’w trafod hefyd</u>

- Cais Parchu Pentir Derbynwyd cais gan Grwp Parchu Pentir yn holi os byddai Cyngor Pentir yn mabwysiadu y Diffib osodwyd ganddynt yn y Ciosg
  Mae eu cytundeb gyda’r Cwmni osododd y Peiriant yn dod i ben 2021
  **Argymell i’r Clerc gysylltu yn ol a’r grwp**